

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Tachwedd 2015

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â rhan 11 (Amrywiol a Chyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i> 15/09/01			
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Lisa Griffiths			
Dyddiad:	Tachwedd 2015			
Arweinydd polisi:	Megan Colley / Heather Giles – gofal cymdeithasol ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel Huw Gwyn Jones – preswylfa arferol a datrys anghydfod			
Manylion cyswllt:				
Math o Raglen/Prosiect ☒ Polisi ☒ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☐ Arall (Nodwch isod) ☐ Prosiect neu raglen ☐ Ymchwil, gwerthusiad ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau				
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn
☐	☐	☐	☐	☒
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?				

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
☐	☐	☐	☐	☒	☐

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalmwyr ac arnynt angen cymorth. Mae'n trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, gan hybu annibyniaeth pobl i roi llais a rheolaeth iddynt. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen:

- y Ddeddf ei hun;
- rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf
- codau ymarfer/canllawiau statudol.

Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Bydd y cod ymarfer yn cefnogi'r broses o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Cerrig Milltir Allweddol

Tachwedd 2014 – Chwefror 2015: Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Gyfres 1af o Is-ddeddfwriaeth dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan gynnwys rheoliadau a chod ymarfer drafft mewn perthynas â Rhan 11.

Chwefror – Ebrill 2015: Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);

Mehefin 2015: Caiff y rheoliadau canlynol mewn perthynas â Rhan 11 eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol, etc.) (Cymru) 2015

Gorffennaf 2015: Dadleuon llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn ystod y cyfnod y mae'r

rheoliadau gerbron y Cynulliad.

Hydref 2015: Cod ymarfer mewn perthynas â rhan 11 o'r Ddeddf yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Mae Rhan 11 o'r Ddeddf yn cynnwys ystod o ddarpariaethau, a ategir gan ddwy set o reoliadau ac un cod ymarfer troswaol.

Mae'r rheoliadau'n ymwneud â phreswylfa arferol a datrys gwrthdaro. Mae'r cod ymarfer yn cwmpasu gofal cymdeithasol ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel (pennod 1) a phreswylfa arferol / datrys gwrthdaro (pennod 2). Nid oes rheoliadau mewn perthynas â'r rhai mewn sefydliadau diogel.

Mae'r cod ymarfer yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol weithredu'r dyletswyddau dan y Ddeddf.

Gofal a chymorth ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliadau diogel

Mae pennod 1 yn nodi'r polisi ar ddiwallu anghenion a chymorth oedolion, plant a phobl ifanc tra'u bod mewn sefydliad diogel, ac unrhyw ofal a chymorth y gall fod arnynt eu hangen pan fyddant yn cael eu hailsefydlu yn ôl yn y gymuned.

Mae'n rhaid i anghenion gofal a chymorth yr holl unigolion mewn sefydliadau diogel gael eu diwallu, yn union fel y byddent pe baent yn byw yn y gymuned. I'r perwyl hwn mae'r polisi wedi'i alinio'n agos â rhannau 2, 3 a 4 o'r Ddeddf:

- Caiff y ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynorthwyl ei disgrifio yn rhan 2 o'r Ddeddf;
- Caiff y ddyletswydd i asesu anghenion ei disgrifio yn rhan 3 o'r Ddeddf;
- Caiff y ddyletswydd i ddiwallu'r angen a ganfuwyd mewn asesiad ei disgrifio yn rhan 4 o'r Ddeddf.

Effaith gyffredinol y polisi yw gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth yr holl oedolion a phlant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel nid dim ond pan fyddant yn cael eu rhyddhau ond tra'u bod yn y ddalfa. Mae gan y rhai mewn sefydliadau diogel hawl i asesiad (gan gynnwys yn dilyn hunanatgyfeiriad) gyda'r nod o gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwn yn cynnwys sicrhau hawliau a hawlogaethau. I lawer o siaradwyr Cymraeg bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau'n golygu gallu defnyddio eu hiaith eu hunain a fydd yn eu galluogi i gyfathrebu a chyfranogi yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Felly mae'r cwestiwn a yw pobl yn cael

gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn agwedd allweddol ar lesiant. Wrth ystyried i ba raddau y mae'r canlyniadau llesiant wedi cael eu cyflawni, bydd hyn yn cael ei fesur yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Mae fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg wedi cael ei sefydlu yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 11 o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn sefydliadau diogel sy'n hygyrch i'r holl unigolion y mae ei angen arnynt. Efallai y bydd llawer o siaradwyr Cymraeg yn dymuno cyfleu eu hanghenion gofal yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly mae'n ofynnol bod y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r newidiadau a achosir gan y Ddeddf yn hanfodol i alluogi cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol i fyw eu bywydau'n annibynnol, gan ddarparu'r lefel gywir o gymorth i gynnal llesiant pobl.

Preswylfa arferol a datrys anghydfod

Mae Pennod 2 yn rhoi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch preswylfa arferol i oedolion a phlant. Mae preswylfa arferol unigolyn yn pennu pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn hwnnw. Mae'r bennod hefyd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn yn achos anghydfodau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch preswylfa arferol neu hygludedd gofal a chymorth. Wedi'u hatodi wrth y bennod hon mae canllawiau ynghylch lleoliadau gofal preswyl trawsffiniol.

Y canlyniadau a ddymunir yw egluro sut y mae egwyddor preswylfa arferol yn berthnasol i unigolion ag anghenion gofal a chymorth, a nodi sut y dylai anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynghylch preswylfa arferol a materion cysylltiedig gael eu datrys.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei gynhyrchu hefyd i ategu'r rheoliadau a ddatblygwyd dan Ran 11 o'r Ddeddf.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'w weld ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cafodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gydsyniad brenhinol ym mis Mai 2014 ac fe wnaeth yr asesiadau o'r effaith, a gynhaliwyd pan oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthi'n craffu ar y Bil, ganfod effeithiau sylweddol pe na bai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys anghynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau demograffig, y ffaith bod gwasanaethau'n canolbwyntio'n gynyddol ar y rhai sydd ar lefel gritigol ac yn cael eu cyfyngu'n fwyfwy i'r bobl hynny, a diffyg camau

o unrhyw fath o fewn y system i ymyrryd ac atal yn gynnar.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn rhoi effaith i'r polisi a nodir yn y Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru: Fframwaith Gweithredu.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gefnogi'r broses graffu trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Canfu'r asesiad o'r effaith fod y Bil wedi'i fwriadu i greu system decach a mwy cyfartal ar gyfer yr holl bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, a bod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir.

Mae egwyddorion allweddol 'Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' wedi cael eu sefydlu yn y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddor bod yn rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Yn ystod y broses, dylai unigolyn allu cyfranogi'n llawn trwy allu mynegi ei hun trwy ei ddewis iaith a dull cyfathrebu.

Mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnal y broses asesu ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel yn union fel y byddai ar gyfer y rhai yn y gymuned. Mae'n rhaid i'r broses hon roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn. Mae'r broses hon yn nodi y dylid pennu cymhwysra anghenion gofal a chymorth unigolyn trwy ddewis iaith y person, boed Cymraeg neu Saesneg. Bydd y broses yn sicrhau bod unigolion hefyd yn gallu cael gwasanaethau yn eu dewis iaith trwy gydol y broses o adnabod a diwallu anghenion gofal a chymorth.

Mae'r broses o asesu a diwallu anghenion unigolion hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol (NMCDS). Un o ofynion NMCDS yw bod yn rhaid i'r asesiad gael ei gofnodi yn y ddewis iaith / y dewis Ddull Cyfathrebu fel sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r oedolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu.

Ni ddylai'r gofyniad i asesiad gael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg achosi oedi gyda'r broses o asesu anghenion unigolyn. Yn ystod y broses, dylai unigolyn allu cyfranogi'n llawn trwy allu mynegi ei hun trwy ei ddewis iaith a'i ddewis ddull cyfathrebu.

Os na fydd y polisi hwn, fel y'i nodir yn y cod ymarfer, yn cael ei weithredu, ni fydd y rhai mewn sefydliadau diogel yn elwa o'r un cyfleoedd i drafod a chytuno ar eu hanghenion gofal a chymorth â'r rhai sy'n byw yn y gymuned (gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer Rhannau 3 a 4).

Mae'r amserlen yn sicrhau bod y gyfres lawn o is-ddeddfwriaeth yn ei lle erbyn mis

Ebrill 2016.

Preswylfa arferol a datrys anghydfod

Mae'r drefn o ddatrys anghydfod yn y cod ymarfer yn adlewyrchu arfer da presennol.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Caiff rheoliadau a chodau ymarfer oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf 'r(h)oi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)'.

Mae datganiad Llesiant drafft wedi cael ei gyhoeddi cyn i'r Ddeddf ddod i rym, a hwnnw'n cynnwys pa un a yw pobl yn cael gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae egwyddorion allweddol 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' wedi cael eu sefydlu yn y Ddeddf, sef bod yn rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn mynd i'r afael â llawer o'r nodau yn "Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17". Mae'r rheoliadau, mewn perthynas ag asesu anghenion unigolion, yn gwneud darpariaeth ar gyfer y nodau canlynol:

Cynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith

Wrth gwblhau asesiad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae'n rhaid i awdurdodau lleol gofnodi'r asesiad o anghenion yn newis iaith / dewis ddull cyfathrebu'r unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu. Mae'n rhaid i wybodaeth fod yn hygyrch trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan adlewyrchu Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau' a chan gydymffurfio maes o law gyda Safonau newydd y Gymraeg.

Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfleu eu hanghenion gofal yn effeithiol trwy eu dewis iaith. Mae'n rhaid i wybodaeth fod yn hygyrch trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan adlewyrchu Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau' a chan gydymffurfio maes o law gyda Safonau newydd y Gymraeg.

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Un o amcanion y polisi yw hybu annibyniaeth unigolyn a sicrhau bod gan unigolion lais cryfach a mwy o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth tra'u bod mewn sefydliad diogel. Mae'n rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' unigolion tra'u bod yn y ddalfa ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gofal a chymorth ar gael ac yn cael eu darparu mewn ffordd decach a mwy cyfartal. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn bennaf lle mae mwy o wasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer ei swyddogaethau i hybu llesiant unigolion, gan gynnwys dyletswydd i roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith).

Gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion

Dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfleu eu hanghenion o ran gofal yn effeithiol. Dylai'r awdurdod lleol fynd ati'n weithredol i gynnig darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy trwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod rhoi'r cyfrifoldeb am ofyn am wasanaethau/asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl agored i niwed yn gallu cyfrannu at eu gorbryder. Cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr; cyfeirir at hyn yn 'Mwy na Geiriau' fel y "Cynnig Gweithredol".

O fis Mawrth 2016 bydd Safonau newydd y Gymraeg yn dod i rym ar gyfer cyrff gwasanaethau cyhoeddus, yr un pryd ag y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod yn weithredol. Bydd Safonau newydd y Gymraeg yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar Awdurdodau Lleol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith roi ystyriaeth hefyd i'r safonau a hysbysiadau cydymffurfio a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn hydref 2015, ac a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Roedd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad o effeithiau'r Ddeddf ar y Gymraeg yn cael ei gynnal mewn Memorandwm Esboniadol¹.

Datgelodd yr asesiad na ddisgwylir unrhyw effaith negyddol ar yr iaith a chan fod y Ddeddf wedi'i bwriadu i greu system decach a mwy cyfartal i'r holl bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, bod cyfleoedd yn bodoli i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.

¹ <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9181-em-r-e.pdf>

Preswylfa arferol a datrys gwrthdaro

Mae'r canllawiau ynghylch preswylfa arferol yn y cod ymarfer wedi'u bwriadu i egluro lle mae unigolyn yn preswylfio fel arfer at ddibenion y Ddeddf, ac maent felly o natur weddol dechnegol. Nid oes cyswllt penodol ag Iaith Fyw: Iaith Byw. (Gweler isod am esboniad llawnach ar effaith y darpariaethau hyn ar y Gymraeg.)

Mae'r gweithdrefnau datrys gwrthdaro yn syml yn adeiladu ar arfer da. Nid yw anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth yn effeithio ar y Gymraeg. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer yn syml yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a'i deddfwriaeth gysylltiedig, yn sicrhau bod gofal a chymorth ar gael ac yn cael eu darparu mewn ffordd decach a mwy cyfartal. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg, a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, o ganlyniad i'r ffaith y bydd mwy o asesiadau/gwasanaethau ar gael yn Gymraeg yn y dyfodol.

Mae Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, 'Mwy na Geiriau', yn cydnabod cysyniad anghenion ieithyddol. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal, e.e. mae rhai pobl yn agored i niwed ac mae rhoi'r cyfrifoldeb am ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg iddynt hwy'n gallu cyfrannu at eu gorbryder. Cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr; cyfeirir at hyn yn 'Mwy na Geiriau' fel y "Cynnig Gweithredol".

Caiff hyn oll ei danategu gan yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn sy'n cynnwys iaith. Mae hyn yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y camau gweithredu a ddisgrifir uchod, sy'n anrhydeddu ymrwymiad y Gweinidog a wnaed yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad y byddai'r Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y rheoliadau a'r Canllawiau sy'n tanategu'r Ddeddf.

Preswylfa arferol a datrys anghydfod

Mae'r canllawiau ynghylch preswylfa arferol yn y cod ymarfer wedi'u bwriadu i egluro

Ile mae unigolyn yn preswyllo fel arfer at ddibenion y Ddeddf, ac maent felly o natur weddol dechnegol. Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gymraeg.

Bydd ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg yn berthnasol o ran sut y caiff unigolyn ei asesu ar gyfer gofal a chymorth, a phryd y caiff penderfyniadau eu gwneud ynglŷn â sut i ddiwallu anghenion dynodedig. Mae'r rhain yn perthyn i Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf ('Asesu Anghenion Unigolion' a 'Diwallu Anghenion') ac ymdriniwyd â hwy dan asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a baratowyd dan y rhannau hynny o'r Ddeddf. Er enghraifft, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried cefndir ieithyddol a diwylliannol oedolyn wrth benderfynu pa gartref gofal y mae person yn symud i mewn iddo. Y cwbl y mae'r darpariaethau o ran preswylfa arferol yn ei wneud yw egluro pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr oedolyn hwnnw.

Mae'r gweithdrefnau datrys gwrthdaro yn syml yn adeiladu ar arfer da. Nid yw anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth yn effeithio ar y Gymraeg. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer yn syml yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Bydd y dyletswyddau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwyn goblygiadau i awdurdodau lleol a chyrff sy'n bartneriaid, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, ac i bobl ac arnynt angen gofal a chymorth a'u gofalwyr y gall fod arnynt angen gofal a chymorth eu hunain yng Nghymru.

Cafodd camau datblygu'r ffrwd waith hon eu goleuo gan waith ymgysylltu â chynrychiolwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, swyddogion polisi'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr Cymraeg sy'n rhan o Banel Cenedlaethol Dinasyddion Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael ei glywed yn ystod y broses o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Fe wnaeth y broses ymgynghori a digwyddiadau ymgysylltu eang gasglu llawer o safbwyntiau, a oedd yn cynnwys sylwadau gan *Estyn Llaw*, sydd wedi cefnogi camau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r Ddeddf, yn ogystal â chynrychiolwyr dinasyddion mewn sefydliadau diogel, yr oeddent hwy eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ymgysylltu hwn wedi sicrhau bod anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw, a byddem yn disgwyl i grwpiau buddiant y Gymraeg ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon o ran y Gymraeg ynghylch preswylfa arferol na'r gweithdrefnau datrys anghydfod yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau a'r

cod ymarfer.
Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)
Amh.
Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?
Cafodd yr holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd a oedd yn ategu'r ymarfer ymgynghori ynghylch y rheoliadau a'r codau ymarfer (Cyfres 1) eu darparu'n ddwyieithog. Roedd y deunyddiau dwyieithog yn cynnwys: • Dogfennau Ymgynghori • Cwestiynau Ymgynghori • Crynodeb Gweithredol • Crynodeb Gweithredol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc • Crynodeb Gweithredol Hawdd i'w Ddarllen. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y dull o ddatblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Chwefror 2013, a chafodd ymatebion gan ystod eang o sefydliadau gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Mae adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r fframweithiau canlyniadau a mesur perfformiad. Mae ymgynghoriadau pellach ynghylch y gwaith yma yn yr arfaeth (gweler cam 2 ar ymgynghoriadau yn y dyfodol).
CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU
<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u> Gan na chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol yn ystod yr asesiad effaith cychwynnol, ni chwblhawyd Offeryn Asesu Risgiau.
Effeithiau cadarnhaol:
Mae hawliau'r unigolyn wedi'u gosod ar wyneb y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i sefydlu'r Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg, <i>Mwy na Geiriau</i> , a defnydd cynyddol o wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg a chynnydd yn eu hargaeledd (cynnydd yn y cynnig gweithredol ac yn y nifer sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol lle gofynnir amdano). Dylai'r broses newydd wella sgiliau iaith Gymraeg staff a gyflogir mewn

gwasanaethau gofal a chymorth trwy roi mwy o hyder iddynt ddefnyddio'u sgiliau;

Mae gan y broses newydd hon y potensial i gynyddu nifer y staff Cymraeg sy'n gweithio yn y gweithlu gofal cymdeithasol, i gefnogi gwasanaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a galluogi pobl i siarad yn eu dewis iaith.

Mae hefyd yn cynnig y potensial i helpu i gadw staff pwrpasol mewn cymunedau Cymraeg.

Effeithiau negyddol:

Efallai na fydd digon o staff Cymraeg i ateb y galw am ofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig mewn sefydliadau diogel, a fyddai yn ei dro'n gosod gofynion ychwanegol ar y gweithlu Cymraeg presennol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Efallai na fydd sgiliau iaith Gymraeg staff gofal a chymorth ar lefel ddigonol i gynnig gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg; gallai hyn arwain at anghenion hyfforddi cynyddol ar gyfer y staff Cymraeg hynny.

Efallai y bydd rhai aelodau o staff yn tanamcangyfrif eu sgiliau iaith Gymraeg gan nad ydynt yn hyderus ynglŷn â'u sgiliau.

Bydd yr agweddau hyn yn cael sylw trwy'r ddarpariaeth hyfforddi a datblygu a fydd ar gael i gefnogi'r broses o roi'r Ddeddf ar waith.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Bydd cynigion rhagweithiol a gwasanaethau proffesiynol di-dor yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ac yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr i wneud mwy i ystyried y defnyddiwr a'i anghenion a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na disgwyl nes gofynnir iddynt wneud hynny.

Bydd y dull hwn yn annog pobl (gan gynnwys staff) i wella'u sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus gan felly wella hyder pobl yn eu Cymraeg a'u defnydd o'r iaith pan fyddant yn derbyn gofal a chymorth o ddydd i ddydd.

Bydd y dull hwn yn Cyfrannu tuag at yr amcanion polisi yn 'laith fyw: iaith byw' ac yn cynyddu niferoedd neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; bydd yn cynyddu amlygrwydd siaradwyr Cymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt; a bydd yn cynyddu sgiliau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg presennol i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith/yn broffesiynol.

Mae'r cod ymarfer ar gyfer asesu yn datgan bod iaith yn elfen annatod o'r gofal, y cymorth a'r wybodaeth y mae pobl yn eu cael ac mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai mewn sefydliadau diogel yn union fel y mae i'r rhai sy'n byw yn y gymuned.

Mae'r cod (Rhan 11) yn ei gwneud yn eglur y dylai'r asesiadau o angen gael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel sy'n briodol i'r unigolyn neu'r teulu dan sylw, ac na ddylai'r dewis hwn achosi oedi yn y broses asesu, yn union fel a wneir ar gyfer y rhai sy'n byw yn y gymuned.

Un o'r gofynion a nodir yn y cod ymarfer yw bod yn rhaid i'r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol (NMCDS) gadw cofnod o'r asesiad yn y ddewis iaith / y dewis Ddull Cyfathrebu fel sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r oedolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Yn 2011, fe gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg adroddiad "Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol" a oedd yn nodi'r canlyniadau i bobl nad ydynt yn derbyn gofal yn eu dewis iaith. Roedd yr adroddiad yn datgan bod "tystiolaeth fyd-eang yn dangos effaith niweidiol rhwystrau ieithyddol ym maes gofal – diffyg mynediad at wasanaethau cymdeithasol; bodlonrwydd defnyddwyr; diffyg perthynas therapiwtig; anawsterau o ran cael cydsyniad; problemau gyda pharhad y gofal gan fod y defnyddiwr yn cael ei atgyfeirio o un asiantaeth at y nesaf; diffyg gofal o ansawdd; diogelwch defnyddwyr; statws iechyd y defnyddiwr; costau gofal – costau personol i'r defnyddiwr a chostau ariannol i'r gwasanaeth".

Cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn dwyn y teitl "Profiadau Siaradwyr Cymraeg o Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol" gan IAITH yn 2012². Fe'i cwblhawyd ar ran yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru. Roedd yn canolbwyntio ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y pedwar grŵp blaenoriaeth a adnabuwyd (plant; pobl hŷn; defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai â dementia, a phobl ag anabledau dysgu), ac roedd yr ymchwil yn cadarnhau'r cyswllt rhwng iaith a gofal.

Mae'n tynnu ar enghreifftiau sy'n awgrymu y gall ansawdd y gofal ar gyfer defnyddwyr agored i niwed gael ei beryglu gan fethiant i gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf. Ymdrinnir hefyd â rôl hanfodol iaith fel offeryn asesu a diagnostig ac ystyrir bod y ddibyniaeth ar gyfieithu, gan ddefnyddio aelodau o'r teulu i gyfleu gwybodaeth rhwng y defnyddiwr gwasanaethau a'r gweithiwr proffesiynol, yn llawn problemau, a allai effeithio ar natur yr asesiad a gaiff ei gwblhau. I ddefnyddwyr a gofalwyr, ystyrir bod y gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith yn cael effaith ar ffurfio perthnasoedd clinigol a therapiwtig.

Mae adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn darparu dystiolaeth o ymchwil a gwblhawyd gan Llais Defnyddwyr Cymru yn 2010, "Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg". Mae'n datgan fel a ganlyn:

²[Profiadau Siaradwyr Cymraeg o Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

“Yn olaf, gan ystyried ymchwil sy’n ymwneud â defnyddwyr, fe gynhaliodd Llais Defnyddwyr Cymru arolwg o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn 2010. Fel sampl, gofynnwyd i 759 o siaradwyr Cymraeg am eu barn am wasanaethau Cymraeg. Wrth drafod y defnydd o’r Gymraeg dywedodd dros chwarter nad oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael: “Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella gwasanaethau presennol, yr un awgrym mwyaf yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat oedd y dylai fod mwy o staff Cymraeg ar gael. Dywedodd 28% o’r holl ymatebwyr mai dyma oedd y rheswm pam nad oeddent yn defnyddio’r Gymraeg yn fwy yn eu hymwneud â’r sector cyhoeddus”. O’r gwaith ansoddol a wnaed fel rhan o’r ymchwil hon, darganfuwyd hefyd nad oedd gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig.”

Mae ‘*Mwy na Geiriau*’ yn cydnabod mai cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy’n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr; a ddiffinnir fel y “cynnig gweithredol”. Mae’r ddeddfwriaeth a’r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a’r fframwaith mesur perfformiad yn sicrhau bod y ‘cynnig gweithredol’ yn rhan annatod o wella canlyniadau llesiant i bobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalu ac arnynt angen cymorth. Bydd Safonau newydd y Gymraeg yn cynnig ysgogiad newydd i gyrff sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus gofleidio’r Gymraeg a’i chynnwys fel rhan o wasanaethau pob dydd.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?

Cadarnhaol: ☒
 Negyddol: ☐
 Niwtral: ☐
 Anhysbys: ☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

- | | |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ynghylch y cynigion ar gyfer rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Chyfres 1 o'r Ddeddf, a oedd yn cynnwys Rhan 2, 3, 4, 7 ac 11. Parodd y cyfnod ymgynghori o 6 Tachwedd 2014 tan 2 Chwefror 2015.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2015.

Roedd dogfennau ymgynghori ar gael yn ddwyieithog. Roedd ymatebwyr yn gallu cwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg os oeddent yn dymuno. Roedd gweithdai a gynhaliwyd yn y digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd yn cynnwys siaradwr Cymraeg ar y panel, ac roedd cyfranogwyr yn gallu gofyn cwestiynau a chael ateb i'w cwestiynau yn Gymraeg os oeddent yn dymuno.

Defnyddiodd rhanddeiliaid â buddiant yn y Gymraeg yr ymgynghoriad fel cyfle i roi adborth yn gyffredinol er na chafwyd unrhyw beth penodol ar Ran 11.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Trefnwyd fod dogfennau ymgynghori ar gael yn Gymraeg ochr yn ochr â'r crynodeb gweithredol ategol, fersiwn o'r crynodeb a oedd yn addas i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd i'w darllen o'r crynodeb. Hefyd, bydd yr adroddiad cryno yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ar ôl yr ymgynghoriad.

Roedd ymateb cadarnhaol i'r ffaith bod y rheoliadau'n hybu pwyslais yn unol â 'Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'.

Ni chafodd unrhyw faterion uniongyrchol eraill mewn perthynas â'r Gymraeg eu codi trwy ymatebion i'r ymgynghoriad.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion i fonitro swyddogaethau o dan y Ddeddf a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Gall Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau o ran gweithredu'r rheoliadau hyn.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau ar feysydd megis y Gymraeg.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau ar y Gymraeg; bydd hyn yn cynnwys ystyried y gwaith a gwblhawyd o dan y fframwaith canlyniadau cenedlaethol.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

**Dileer fel y bo'n briodol:*

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleodd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.

Enw:

Lisa Griffiths

Adran:

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad(au):

Gorffennaf 2015

Llofnod:

Dyddiadau adolygu: Hydref 2016

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu